**AGENDA EITEM RHIF 2**

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AM ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog am Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Iau 31 Ionawr 2002 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr S. Drew, K.N. Hawkins, D. Jones, G. Jones (dirprwyo dros M.M. Jones), W. Roberts, R.Ll. Williams

**Yn Cynrychioli Cydbwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych**

Mrs. M.B. Lloyd (Cadeirydd ) a M. Barros-Curtis

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

M. Colbert, Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, M. Evans, J. Gibson, S. Harris, J. Kirkham, Parch. J. Owen

**Aelodau cyfetholedig**

T. Ap Sion (dirprwyo dros y Parchedig Athro L.J. Francis) a'r Parchedig R. Townsend

### HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd/Ymgynghorydd A.G. a Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

T. Bryer, N. Roberts a'r Cynghorydd F. Shaw

**1209. CROESO**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod a dywedodd fod y Parch R. Townsend wedi ei gyfethol i'r Cyngor i gynrychioli Mudiad Addysg Gristnogol Cymru a fod Y Cynghorydd W. Roberts wedi cymryd lle'r Cynghorydd K.P. Stevens yn gynrychiolydd yr Awdurdod Addysg Lleol.

**1210. Y COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2001 (cylchlythyrwyd yn flaenorol), ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 27 Tachwedd 2001.

**Materion yn codi**:-

Eitem Rhif. 653 - Cofnodion: Eitem Rhif. 281 – Cynllun Luc: Eglwys Bresbyteraidd Cymru – dywedodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd AG ei fod yn dal i aros am fwy o fanylion ynghylch cael copi o aralleiriad Efengyl Luc, a'i bris, cyn iddo fwrw mlaen â'r mater hwnnw gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Mewn ateb i gwestiwn gan aelod dywedodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd mai diben y cynllun oedd cynhyrchu aralleiriad o Efengyl Luc mewn Cymraeg cyfoes ar gyfer ieuenctid Cymru.

Eitem Rhif 656 – Adroddiad Blynyddol Drafft SACRE: y mater cyfieithu - Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr wedi ei anfon at Brif Weithredwr Gweithredol Sir Ddinbych a chopi i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes yn mynegi pryderon SACRE ynghylch cyfieithiadau i'r Gymraeg. Dywedodd yr

Arolygydd/ Ymgynghorydd AG fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes wedi mynegi ei gofid ynghylch yr oedi a fu wrth gyfieithu fel y cafodd aelodau brofiad ohono, a thrafodwyd hyn mewn cyfarfod diweddar o'r Gweithgor Dwyieithog. Roedd yn dymuno sicrhau'r aelodau fod gan y Cyngor ymrwymiad pendant i gyfieithu dogfennau yn unol â'r gofynion.

Eitem Rhif 657 – Cymdeithasau SACRE Cymru: Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar - Dywedodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd AG ei fod wedi ysgrifennu at ACCAC a gofyn am i AG a Datblygiad Ysbrydol gael ei roi yng Nghwricwlwm y blynyddoedd cynnar, ond ni chafwyd ateb eto. Roedd yn gwybod fod Sacres eraill wedi cysylltu ag ACCAC ynghylch y ac yn sgil hyn bu trafodaethau pellach gyda'r bwriad o osod AG a Datblygiad Ysbrydol o fewn fframwaith y blynyddoedd cynnar. Hefyd, cyfeiriwyd at gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 wrth ystyried Addysg Grefyddol a Chyd-addoli.
Mewn ymateb i ymholiad gan aelod cadarnhaodd Clerc Sacre y byddai hi'n trefnu gosod rhif y tudalennau ar y cofnodion sydd i'w trafod gan y Cyngor, er mwyn hwyluso'r cyfeiriadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**1211. CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2000 & 2001**

Cyflwynodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd y tablau oedd yn rhoi manylion canlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefyddol yn y blynyddoedd 2000 a 2001 yn ysgolion Sir Ddinbych (cylchlythyrwyd yn flaenorol) er mwyn i'r aelodau eu trafod.

Aeth yr Arolygydd /Ymgynghorydd ymlaen i egluro'r canlyniadau'n fanwl ac i wneud cymariaethau rhwng y blynyddoedd, lle’r oedd y rheiny ar gael. Cyfeiriodd yn arbennig at y canlynol:-

- TGAU Canlyniadau- pawb - Astudiaethau Crefyddol 2000 & 2001 – er bod dau ar hugain o ymgeiswyr ychwanegol yn 2001 bu gostyngiad yn nifer y rhai a enillodd y radd A* - C o bron 10% rhagor y flwyddyn flaenorol. Drwyddi draw roedd y canlyniadau'n siomedig a byddai ysgolion unigol yn chwilio am y rhesymau am y canlyniadau is.

- TGAU Canlyniadau- Bechgyn - Astudiaethau Crefyddol 2000 & 2001 –Roedd gostyngiad o 18% yn gyffredinol ym mherfformiad bechgyn yn 2001 rhagor y flwyddyn flaenorol.

- TGAU Canlyniadau Merched - Astudiaethau Crefyddol 2000 & 2001 – roedd cynnydd o bymtheg ymgeisydd ac roedd yna gymysgedd o ganlyniadau gwell a gwaeth yn yr ysgolion unigol rhagor y flwyddyn flaenorol, fodd bynnag, ar y cyfan bu gostyngiad o 5% yn y lefel perfformiad.

- Addysg Grefyddol Pawb (Cwrs Byr) –cymharol newydd yw'r cwrs byr a bu rhaid i'r ysgolion ymaddasu i'r gofynion newydd; roedd yn ddymunol sylwi pa mor boblogaidd fu'r cwrs- gyda 167 yn cymryd rhan ynddo; drwyddi draw roedd y ffigyrau yn 4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y graddfeydd A* - C.

- Lefel A Canlyniadau pawb - Astudiaethau Crefyddol 2000 & 2001 – roedd pob un o'r pedair ysgol wedi gwella ei pherfformiad yn sylweddol rhagor y flwyddyn flaenorol ac roedd niferoedd yr ymgeiswyr wedi bod yn gyson.

- Tystysgrif Cyraeddiadau Addysgol - Astudiaethau Crefyddol – yn dangos canlyniadau canmoladwy iawn ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl; nid oedd y wybodaeth ar gyfer Ysgol Tir Morfa ar gael ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn gyd-awdur llyfr i gynorthwyo ysgolion gydag Astudiaethau Crefyddol Cwrs Byr, bod y llyfr wedi ei gyhoeddi ac wedi derbyn canmoliaeth uchel iawn. Manteisiodd ar y cyfle i longyfarch yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am hyn a dweud fod yr Arolygydd/Ymgynghorydd yn Brif Arholwr ar gyfer Astudiaethau Crefyddol y Cwrs Byr.

Wrth drafod canlyniadau'r arholiadau gofynnodd yr aelodau gwestiynau penodol i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG gan gyfeirio'n arbennig at y newidiadau pwysig yn y maes llafur Lefel A ac oblygiadau'r dysgu; darparu AG yn yr ysgolion unigol; cynnwys y cwrs byr AG, a chyfartaledd Cristnogaeth a chrefyddau eraill mewn Addysg Grefyddol

Wrth drafod canlyniadau TGAU mynegodd un aelod ei siom ynghylch y lefel perfformiad is yn 2001 rhagor 2000 gan gyfeirio at bosibilrwydd cynnig HMS er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad bechgyn ar y lefel honno. Teimlai un aelod fod y cynnydd yn y nifer o ddisgyblion oedd yn ymgeisio am gymwysterau cydnabyddedig yn gwrthbwyso'r gostyngiad a welwyd yn y cyraeddiadau perfformiad, a theimlai ei fod yn bwysicach i lawer o ddisgyblion wneud cynnydd yn lefelau isaf Astudiaethau Crefyddol nag i leiafrif o ddisgyblion lwyddo ar lefel uchel.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynghylch athrawon arbenigol mewn AG yn ysgolion Sir Ddinbych dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod pob un o ysgolion uwchradd y sir yn cyflogi athrawon arbenigol, ond gall problemau prinder athrawon godi pan fo rhaid i un arbenigwr ddysgu ar lefel TGAU a lefel A. Teimlodd un aelod y dylai SACRE gael gwybod petai disgyblion o dan anfantais oherwydd prinder athrawon arbenigol.

Roedd aelodau'n falch o'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr am y cwrs byr a'r diddordeb roedd y cwrs wedi ei gynhyrchu yn yr ysgolion. Llongyfarchodd y Parch R. Townsend Ysgol Dinas Bran am ei bod yn gallu cynnig y cwrs byr, a'r cwrs hir i'r disgyblion. Yn dilyn cais oddi wrth un aelod cytunodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG holi ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am benderfynu pa gyrsiau oedd yn cael eu dilyn mewn ysgolion unigol.

Ar ôl trafodaeth lawn a manwl mynegodd yr aelodau eu siom am nad oedd rhai o'r ysgolion yn cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau Astudiaethau Crefyddol ond llongyfarchodd yr ysgolion a oedd yn gwneud hynny. Teimlodd y Cyngor nad oedd y tablau bob amser yn adlewyrchu gwir ysbryd yr ysgol. Drwyddi draw, roedd canlyniadau'r arholiadau'n adlewyrchu'n ffafriol ar y Sir a llongyfarchodd yr aelodau'r ysgolion hynny am eu canlyniadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn canlyniadau'r arholiadau am y blynyddoedd 2000 a 2001 a derbyn adroddiad llafar yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG.*

**1212. CYMDEITHAS SACRES CYMRU**

**(a) WASACRE - 8 Tachwedd, 2001**

Adroddodd y Cadeirydd(un o gynrychiolwyr SACRE Sir Ddinbych ar WASACRE) ar lafar am y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2001 yng Nglyn Ebwy (Cyngor Bwrdeistrefol Blaenau Gwent) fel a ganlyn:-

(i) 'Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol' (AG & ABCH) – cyflwyniad ar y cyd yn y cyfarfod gan Graham Davies; Eluned Jones; Vaughan Salisbury and Anthea Parker ar gynnwys y fframwaith ABCH a'r ddogfen ganllawiau a'r modd mae agweddau emosiynol, ysbrydol, a moesol ABCH yn gysylltiedig ag AG; y berthynas sydd rhwng AG ac ABCH a sut y gellir integreiddio AB ac ABCH yn effeithiol. Hefyd, dangoswyd fideo'n dangos sut y gellir defnyddio amser cylch yn effeithiol.

(ii) 'Y Ddogfen Enfys' – roedd y ddogfen o gymorth i ieuenctid ynglyn â thrawma a galaru a chytunwyd y dylai WASACRE drafod gwneud darpariaethau er mwyn i aelodau'r gymdeithas dderbyn y ddogfen. Cytunwyd anfon gwahoddiad i'r Tad Ieuan i gyfarfod y gymdeithas yn y dyfodol mewn perthynas a hynny.

(iii) Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg: Coleg y Drindod Caerfyrddin Ni chynigiwyd cyrsiau AG ac Ast.C drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf oherwydd y nifer bach o geisiadau am y cyrsiau; wedi hyn cafodd dau aelod newydd o staff eu penodi i'r adran Ast C ac roeddynt yn awyddus i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch diffyg darpariaeth yn y Gymraeg a danlinellir yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin a diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd am ei hadroddiad ar y cyfarfod hwnnw.
***PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad llafar y Cadeirydd*

**(b) Dogfen Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (AG & ABCH)**

Cyflwynodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd AG y **Ddogfen Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol** (AG & ABCH) (Cylchlythyrwyd yn flaenorol ) er mwyn i aelodau ei hystyried. Dywedwyd wrth yr aelodau , er nad yw'r ddogfen yn statudol, roedd gofyn am i ysgolion ddelio â mater ABCH ac roedd y ddogfen yn cynnig cyngor a chefnogaeth ar hyn.

Eglurodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd AG fod y ddogfen yn rhoi manylion o'r berthynas rhwng AG a ABCH ac roedd o gymorth i athrawon wrth iddynt ymchwilio i'r cyfraniad y gallai AG ei wneud tuag at ABCH. Aeth yn ei flaen i egluro fframwaith yr ABCH i'r aelodau gan roi manylion y prif nodweddion cyfrannol; amcanion ABCH; agweddau a ellir eu datblygu mewn cyd-destun yr ysgol; a chanlyniadau dysgu ABCH yn ystod pob Cyfnod Allweddol a'r cyd-destunau AG oedd yn cyfateb iddynt. Roedd y ddogfen yn awgrymu pa fathau o gyd-destun y gallai AG ddarparu ar eu cyfer drwy gael gwybodaeth angenrheidiol, hybu agweddau at werthoedd, a datblygu'r medrau a nodir yn fframwaith yr ABCH. Cyfeiriwyd yn arbennig at rinweddau ' amser cylch'.

I gloi, canmolodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd AG y ddogfen a theimlo y byddai'n darparu cyngor gwerthfawr i ysgolion wrth i AG gyfrannu tuag at fframwaith ABCH ac awgrymu y dylai aelodau ystyried dosbarthu'r ddogfen yn ysgolion Sir Ddinbych.

Roedd yr aelodau yn llawn gymeradwyo'r ddogfen ac yn talu teyrnged i'r gwaith rhagorol a wnaed gan y swyddogion wrth iddynt ei pharatoi a'i chynhyrchu.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cymeradwyo'n llwyr y ddogfen Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol a*

*(b) dosbarthu copïau o'r ddogfen i ysgolion Sir Ddinbych*

**(c) Enwebu Cynrychiolwyr I Symposiwm WASACRE/ACCAC**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG lythyrau a dderbyniodd oddi wrth WASACRE dyddiedig 7 Hydref, 2001 a 20 Rhagfyr 2001 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr i wasanaethu ar Bwyllgor Gweithredol y Gymdeithas ac enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr i fynychu'r Symposiwm a gynhelir mewn cydweithrediad ag ACCAC ar 27 Ebrill , 2002 yn Ysgol Uwchradd Llanidloes. Wrth geisio am ethol swyddogion, cyfeiriwyd at y Côd ymarfer ( gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Dywedodd y Cadeirydd mai diben y Symposiwm oedd ystyried swyddogaeth a statws y Meysydd Llafur a Gytunwyd AG ac roedd WASACRE wedi cytuno estyn gwahoddiad i dri o ddirprwyon o bob SACRE, a dau athro. Wrth drafod enwebu dau athro cyfeiriodd y Cadeirydd at aelodaeth gweithgor y Maes Llafur a Gytunwyd ac awgrymu y dylai dau o'r pedwar athro sydd ar y Gweithgor gael eu henwebu i fynd i'r Symposiwm, am ei bod hi'n teimlo y byddant yn gallu cynrychioli SACRE Sir Ddinbych drwy gyfrannu.

Cytunodd aelodau â barn y Cadeirydd ac awgrymu , petai modd, y dylai un athro o’r sector cynradd ac un o'r sector uwchradd gael eu henwebu i fynd i'r Symposiwm. Gwnaeth yr aelodau gais am i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG gysylltu'n uniongyrchol â'r pedwar athro a grybwyllwyd gan obeithio y byddai dau ohonynt yn gallu mynd i'r Symposiwm ar 27 Ebrill 2002 a:-

***PENDERFYNWYD** yn ôl hyn*

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at ystyried y Maes Llafur a Gytunwyd Cenedlaethol Cymru er mwyn codi statws y pwnc a chynyddu'r gyllideb. Roedd yr Aelodau o'r farn mai peth pwysig oedd i'r AG gael ei arolygu yn lleol a sicrhaodd yr Aelodau y byddai Addysg Grefyddol yn cael ei benderfynu yn lleol.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau mai hi oedd Is-Gadeirydd WASACRE ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei sefydlu'n Gadeirydd yn ôl yr arfer. Gan fod cynrychiolaeth ar Wasacre o Sir Ddinbych eisoes cynigiodd na chyflwynir unrhyw enwebiaeth i WASACRE a:-

***PENDERFYNWYD*** *yn ôl hyn.*

**(ch) Adroddiad Blynyddol WASACRE 2000 - 2001**

Cyflwynodd yr Arolygydd /Ymgynghorydd adroddiad blynyddol WASACRE 2000 - 2001 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi manylion gweithgareddau'r Gymdeithas. Cyfeiriodd y Cadeirydd at Eitem 6 yn yr adroddiad hwnnw a dywedodd fod y Gymdeithas yn dal i ddisgwyl cyfarfod gyda Miss. Jane Davidson, AC, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y Cynulliad Cenedlaethol.

***PENDERFYNWYD*** *cael a derbyn yr adroddiad*

Yn y fan yma, daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes i'r cyfarfod ar ôl cael gwahoddiad oddi wrth y Cadeirydd i annerch y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes ymrwymiad y Cyngor i sicrhau darpariaeth cyfieithiadau Cymraeg yn ôl gofynion y Cyngor.

**1213. MYFYRDOD TAWEL**

Awgrymodd y Cynghorydd W. Roberts y dylai'r Cyngor ystyried dechrau eu cyfarfodydd yn y dyfodol gyda gweddi. Trafododd aelodau'r cynnig a theimlo mai annoeth fyddai cymryd fod pawb oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn y dyfodol yn ymarfer ffydd, gan gytuno y byddai'n fwy priodol caniatáu cyfnod o dawelwch i'r unigolion.

***PENDERFYNWYD*** *dechrau cyfarfodydd SACRE Sir Ddinbych gyda chyfnod o fyfyrdod tawel.*

Yma, dywedodd yr Ymgynghorydd/ arolygydd Addysg Grefyddol bod copïau ganddo o'r llyfryn ' Amcanu tuag at ragoriaeth mewn addysg Grefyddol' a gynhyrchwyd gan Estyn ac sydd yn cynnwys y newidiadau i'r cyfieithiad Cymraeg fel y gwnaed cais amdanynt yn eu cyfarfod ar 7fed Chwefror 2002. Roedd copiau o'r llyfryn ar gael yn y cyfarfod ar gyfer yr aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 a.m.

*********

**AGENDA EITEM RHIF 4**

# ADDYSG GREFYDDOL : RHAGLEN HMS 2002 – 2003

## CYRSIAU CYNRADD

**Cydlynydd Cwricwlwm AG – Diwrnod Ymgynghori a Rhannu**
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
9.15 – 3.15
23 Medi 2002 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, : Hyd at 30 lle
24Medi 2002 – Erlas, Wrecsam: Hyd at 30 lle

**Addysgu Cristnogaeth ac Iddewiaeth yng Nghyfnod Allweddol 1**
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
9.15 – 3.15
4 Rhagfyr 2002 – Erlas, Wrecsam: Hyd at 30 lle
5 Rhagfyr 2002 – Ffordd Dinerth, Bae Colwyn: Hyd at 30 lle

**Addysgu Cristnogaeth a Hindwaeth yng Nghyfnod Allweddol 1**
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
9.15 – 3.15
30 Ionawr 2003 – Lôn Ganol, Dinbych: Hyd at 30 lle
31 Ionawr 2003 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug: Hyd at 30 lle

**Addysgu Cristnogaeth, Hindwaeth, a/neu Iddewiaeth mewn Ysgolion Cynradd**
[Cyfrwng y Gymraeg] Darparydd: Carys Thomas (o ESIS)
9.15 – 3.15
7 Mawrth 2003 – Lôn Ganol, Dinbych: Hyd at 20 lle

**Cynllunio AG Cynradd – Sesiwn gweithdy hanner diwrnod**
9.15 – 12.00; 12.30 – 3.00
[Cyfrwng y Saesneg; grwp Cymraeg os bydd digon o nifer]
30 Ebrill 2003 – Lôn Ganol, Dinbych
1 Mai 2003 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug
2 Mai 2003 – Erlas, Wrecsam

**Codi Safonau yn AG trwy Sgiliau Allweddol**
9.15 – 3.15
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
3 Gorffennaf 2003 – Ffordd Dinerth, Bae Colwyn
4 Gorffennaf 2003 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug

## CYRSIAU UWCHRADD

**Penaethiaid Adran – Diwrnod Rhannu ac Ymgynghori**
9.15 – 3.15
[Cyfrwng y Saesneg; grwp Cymraeg] Arweinydd: GPC
20 Medi 2002 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug: Hyd at 32 lle

**Cyfnod Allweddol 3 : Ail Fywiogi AG Cyfnod Allweddol 3**
9.15 – 3.15
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
27 Ionawr 2003 - Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug: Hyd at 30 lle

**Codi Safonau yn AG Cyfnod Allweddol 4**
**9.15 – 3.15**
[Cyfrwng y Saesneg] Darparydd: GPC
18 Mawrth 2003 – Lôn Ganol, Dinbych

**Penaethiaid Adran – Sesiwn Diweddaru (Ystwyll)**
4.00 – 5.15
[Cyfrwng y Saesneg] Arweinydd: GPC
24 Mehefin 2003 – Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug

# Manylion Newydd Arholiadau Addysg Grefyddol

## *Astudiaethau Crefyddol: TGAU*

## MANYLION A

### *Cwrs Llawn*

Unrhyw 2 o:
Gristnogaeth 1 (NEU Gristnogaeth: Gatholig)

Cristnogaeth 2 (NEU Cristnogaeth: Efengylau)

Iddewiaeth
Islam
Hindŵaeth

**Asesiad:**
2 bapur 1awr 45 mun. a 2 ddarn o waith asesiad mewnol. 1 ar gyfer pob dewis. [80% - 20%]

### *Cwrs Byr*

Unrhyw 1 o:
Gristnogaeth 1 (NEU Gristnogaeth: Gatholig)

Cristnogaeth 2 (NEU Cristnogaeth: Efengylau)

Iddewiaeth
Islam
Hindŵaeth

**Asesiad:**
1 papur 1awr 45 mun ac 1 darn o waith asesiad mewnol. [80% - 20%]

**Adran Cynnwys:**
Addoli
Dathlu
Awdurdod
Credoau
Cymuned
Moesoldeb
Dull o Fyw ac Ymarfer
Cymdeithasol

**Arholiad:**
A: Ateb Byr
B: Seiliedig ar symbyliad – atebion byr ac estynedig
C: 2 o 3 – traethawd strwythuredig

*Asesiad fesul cam:*
*Gall y cyrsiau llawn ym manylion A neu B gael eu gwneud dros ddau gyfnod allweddol: 1 cwrs byr ym Ml 10 a 11; yr 2il ym Ml 12/13*

***Sylwer:***
***Ym Manylion B*** *gall Canolfannau ddewis rhwng y canlynol:*
*1. Cristnogaeth yn unig (2 draddodiad pendant o fewn)*
*2. Cristnogaeth ac 1 prif grefydd arall.*
3. Cristnogaeth a 2 prif grefydd arall.

## MANYLION B

### *Cwrs Llawn*

Dewis A **a** Dewis B

### *Cwrs Byr*

Dewis A **neu** Dewis B

**Dewis A**

Pum uned o astudiaeth:

1. Perthynas *(Cariad, priodas ac ysgariad)*
2. Ydi o'n deg ? *(Cyfiawnder a chydraddoldeb)*
3. Chwilio am ystyr Duw, bywyd a marwolaeth)
4. Identiti a Pherthyn *(Dewis, identiti personol a chorfforaethol)*
5. Ein Byd *(Ymchwilio'r greadigaeth a'n lle yn y byd)*

**Dewis B**

Pum uned o astudiaeth:

1. Crefydd a gwrthdaro. *(Rhyfel trais a heddwch)*
2. Crefydd a meddygaeth (Moeseg feddygol a sancteiddrwydd bywyd)
3. Mynegiant crefyddol *(Mynegi ffydd)*
4. Awdurdod: Crefydd a'r Wladwriaeth *(Cyfraith a threfn mewn crefydd a chymdeithas)*
5. Dioddef a drwg *(Y diniwed yn dioddef a'r cysyniad o ddrwg)*

**Arholiad:**
Cwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar symbyliad ysgrifenedig a gweladwy, gyda chyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig.
1 cwestiwn fesul uned sydd angen manylion am draddodiad crefyddol; 1 cwestiwn o bob uned yn cael ei werthuso.

**Adrannau Cynnwys:**
1. Credo crefyddol, gwerthoedd a thraddodiadau
2. Profiad a materion dynol
3. Cysyniadau Allweddol a: Grid Cysyniad Craidd – fesul crefydd

**Asesiad:**
Yn Newis A a B gall canolfannau ddewis arholiad 100% [1 awr 50 mun], **neu** ddewis sy'n cynnwys asesiad mewnol. Mae'r asesiad mewnol yn seiliedig ar Uned 5 yn y dewis olaf a'r arholiad yn cynnwys Unedau 1 – 4 (I awr 35mun) [80% - 20%]

# Manylion Newydd Arholiadau Addysg Grefyddol

## *UG/Uwch: Astudiaethau Crefyddol*

*Sylwer:*
*Gellir cymryd lefelau UG ar ben eu hunain (a bydd y canlyniadau yn sefyll); NEU, gellir eu cymryd fel 'rhan un' o gymhwyster Lefel Uwch (yn yr achos hwn 'cedwir' canlyniadau hyd y diwedd – onid y'i 'defnyddiwyd').*

### UWCH GYFRANNOL (UG)

Unrhyw 3 o'r 7 canlynol (cyn belled eu bod o grwpiau gwahanol):

***Grŵp I:***
1a – Cyflwyniad i Gristnogaeth
*(Gwraidd Amrywiaeth Cristnogol; Rhai Credoau a Ymarferion Allweddol mewn Cristnogaeth gyfoes)*
1b – Crefyddau'r Dwyrain
*Un o:* [i] Cyflwyniad i Fwdistiaeth *(Bywyd Bwda; Rhai cysyniadau ac ymarferion canolog*
[ii] Cyflwyniad i Hindŵaeth *(Cred ynghylch duwdod a dynoliaeth; Rhai Credoau ac Ymarferion Allweddol)*
[iii] Cyflwyniad i Sicyddiaeth *(Deg Guru; Rhai Credoau ac Ymarferion Allweddol)*

***Grŵp II:***
2a – Crefyddau'r Gorllewin
*Un o:* [i] Cyflwyniad i Islam *(Sylfaeni; ; Rhai Credoau ac Ymarferion Allweddol)*
[ii] Cyflwyniad i Iddewiaeth *(Sylfaeni; Rhai Credoau ac Ymarferion Allweddol)*
2b – Cyflwyniad i athroniaeth crefydd *(Bodolaeth Duw; drwg a dioddef)*

***Grŵp III:***
3a – Cyflwyniad i grefydd a moeseg *( Theori moeseg, Moeseg gymhwysol : perthynas rywiol)*
3b – Cyflwyniad i'r Hen Destament *(Llenyddiaeth yr HD; Rhai agweddau allweddol o'r HD)*

***Grŵp IV:***
4 – Cyflwyniad i'r Testament Newydd
*(Llenyddiaeth y Testament Newydd; Rhai themâu allweddol y Testament Newydd)*

**Arholiad:**
1 papur o 1.25 awr ar gyfer pob modiwl (= 3)

Pob papur ag 1 cwestiwn gorfodol strwythuredig yn seiliedig ar ysgogiad a thraethawd strwythuredig (dewis o 2)

Papurau ar gael yn Ionawr a Mehefin.

Pwysiad:
AS – 100%
A – 50%

### UWCH (A2)

Unrhyw 2 o'r 7 canlynol (cyn belled â'u bod mewn grwpiau gwahanol, ac yn dilyn ymlaen o ddewisiadau UG) **a'r uned synoptig**:

***Grŵp I:***
5a – Astudiaethau mewn Cristnogaeth *(Yr Eglwys a'i gweinidogaeth; Dadleuon Cristnogaeth gyfoes; Cristnogaeth yn y Byd Modern)*
5b – Crefyddau'r Dwyrain
*Un o:* [i] Astudiaethau mewn Bwdistiaeth *(Theravada a Mahayana Bwdistiaeth; Cred acYmarfer Bwdistaidd; Bwdistiaeth ym Mhrydain)*
[ii] Astudiaethau mewn Hindŵaeth *(Hindŵaeth Vedic ; Bhagavad Gita; Hindŵaeth gyfoes)*
[iii] Astudiaethau mewn Siciaeth *(Ysgrythurau; Datblygiadau Modern; moesoldeb ac identiti Sic)*

***Grŵp II:***
6a – Crefyddau'r Gorllewin
*Un o:* [i] Astudiaethau mewn Islam *(Y gyfraith; diwinyddiaeth ac athroniaeth Foslemaidd; Islam yn y byd cyfoes),*
[ii] Astudiaethau mewn Iddewiaeth *(Cyfriniaeth a Hasidiaid; Mynegiant Modern; Materion a digwyddiadau arwyddocaol)*

***Grŵp III:***
7a – Astudiaethau mewn Crefydd a Moeseg *(Theori moeseg; Moeseg gymhwysol: Cyfiawnder; Moeseg gymhwysol: Gwrthdaro)*
7b – Astudiaethau yn yr Hen Destament*(Dulliau beirniadol o astudio'r HD; Cysyniad o Dduw; Proffwydoliaeth)*

***Grŵp IV:***
8 – Astudiaethau yn y Testament Newydd *(Dulliau beirniadol o astudio'r TN; Yr Eglwys yn y TN; Addysgu moesegol y TN)*

***Synoptig:***
9 – Crefydd a phrofiad dynol *(Awdurdod crefyddol; Profiad crefyddol; Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl marwolaeth*

**Arholiad:**
1 papur o 1.5 awr ar gyfer pob modiwl (= 2); a Phapur Synoptig 1.5 awr (Hysbysu'r pwnc 2 fis ymlaen llaw; ateb o dan amodau rheoledig)
Pob papur ag 1 cwestiwn gorfodol strwythuredig yn seiliedig ar ysgogiad a thraethawd strwythuredig (dewis o 2)

Papurau ar gael yn Ionawr a Mehefin.
Pwysiad:
A – 50%

## Manylion Newydd Arholiadau Addysg Grefyddol

### *Tystysgrif Lefel Mynediad (TCA)*

*Lluniwyd ar gyfer ymgeiswyr o gyrhaeddiad is h.y. rhai nad ydynt fel arfer yn cyrraedd Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol*

### ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Unrhyw ddau o'r dewisiadau canlynol:

1. Crist a sylfaeni Cristnogaeth
2. Bywyd Cristnogol mewn cymdeithas gyfoes
3. Bywyd ac addoliad Cristnogol
4. Siciaeth mewn cymdeithas gyfoes
5. Hindŵaeth mewn cymdeithas gyfoes
6. Bwdistiaeth mewn cymdeithas gyfoes
7. Iddewiaeth mewn cymdeithas gyfoes
8. Islam mewn cymdeithas gyfoes
9. Ymarfer a moesoldeb Cristnogol *(Nid gyda dewis 2 na 3 uchod)*

[Tebygrwydd yng nghynnwys yr uchod, ond nid yw'r un fath â dewisiad Manylion A TGAU

Asesiad:

1 papur arholiad mewnol (gyda pwysiad o 10%) ac 1 papur allanol o 30 munud (pwysiad o 10% hefyd; = 20% mewn cyfanswm)

4 darn o waith asesu mewnol:

1. Ymchwilio
2. Llafar (*)
3. Dychmygol
4. Strwythuredig (*)

*(Pob un o'r 4 uchod a phwysiad o 20% = 80%)*

(*) – rheolir yn allanol

### ADDYSG GREFYDDOL

Pum uned o astudiaeth:

1. Perthynas *(Cariad, priodas ac ysgariad)*
2. Ydi o'n deg ? *(Cyfiawnder a chydraddoldeb)*
3. Chwilio am ystyr *(Duw, bywyd a marwolaeth)*
4. Identiti a pherthyn *(Dewis, identiti personol a chorfforaethol)*
5. Ein byd *(Ymchwilio'r creu a'n lle yn y byd)*

[Mae'r uchod yn cyfateb i Fanylion B Dewis A cwrs TGAU]

Asesiad:

1 papur arholiad mewnol (gyda pwysiad o 10%) ac 1 papur allanol o 30 munud (pwysiad o 10% hefyd) – y ddau ar Uned 1 y Manylion

4 tasg a asesir yn fewnol, 1 ar gyfer pob uned sy'n weddill yn y Manylion. Bydd 2 yn cael ei osod gan CBAC, ac yn cynnwys Cristnogaeth yn unig; bydd y ddau arall yn cynnwys y ddau draddodiad crefyddol a astudiwyd. *(pwysiad o 20 % = 80%)*

1. Dychmygol/Creadigol (*)
2. Ysgrifennu Estynedig (*)
3. Llafar neu Symbyliad
4. Llafar neu Symbyliad

*(*) Gosodwyd gan CBAC*

Denbighshire County Council

pfp publishing ltd
Freepost 59
Rochester
ME2 4BR
Tel 0845 602 4337
Fax 0845 602 4338
www.pfp-publishing.com

pfp

Dear RE Adviser

**How can you continue to encourage good, consistent collective worship in your LEA?**

Both The Primary Assembly File and The Secondary Assembly File are already used by about a quarter of primary and secondary schools. The files make planning and delivering collective worship easier for today's busy school leaders.

Now you can make sure that your schools discover how useful these assemblies are. We can send you free samples and an order form with a special price for your schools. Or I can negotiate bulk subscription rates with you or a member of your SACRE.

**Why are these assemblies so popular with schools in the UK?**

The assemblies in each file are stimulating and fun for the children and pupils. As well as a moving story, each assembly comes with the choice of a thought or prayer. Our assembly writers are mostly practising Heads or Heads of Department and understand what makes a good assembly.

The format of the files makes life easier for today's busy school leader and SMT. The assemblies are arranged in themes so that they can fit easily into the school assembly cycle or plan. They can also be used off the shelf if a planned assembly falls through at the last minute.

Both files work on a subscription basis. Subscribers to The Primary Assembly File receive 20 assemblies per term. Subscribers to The Secondary Assembly File are sent 30 assemblies per term. Each file also comes with a free CD of classical music so that music can be played as pupils and children assemble.

**What to do next.**

Fill out the attached form so that I or one of my colleagues can contact you. Let us know if you are interested in a bulk subscription deal for your LEA or would like your schools to receive samples and a special subscription rate. I look forward to receiving your form.

With best wishes

Marcus Deyes

Marcus Deyes
Marketing and Sales Manager
pfp publishing ltd.

APPENDICES NOT AVAILABLE IN ELECTRONIC FORM